CÔD YMARFER
HYFFORDDIANT MEWN SWYDD

(Elfennau 2.1 – 2.4 o Rhan A y CLG Cynradd)

Prif Swyddfa : Cwmni CYNNAL · Plas Llanwnda · Stryd y Castell · CAERNARFON · Gwynedd · LL55 1SH
Canolfan Dechnoleg Maesincla: Cwmni CYNNAL · Canolfan Dechnoleg · Maesincla · CAERNARFON · Gwynedd · LL55 1RS
Uned Dechnoleg Llangefni : Cwmni CYNNAL · Stryd y Bont · Llangefni · Ynys Môn · LL77 7HL

HYFFORDDIANT MEWN SWYDD
CÔD YMARFER

(Elfennau 2.1 – 2.4 o Rhan A y CLG Cynradd)

RHAGLEN FLYNYDDOL	· Rhaglen HMS Flynyddol yn cael ei pharatoi ar sail trefn adnabod blaenoriaethau. · Gosodir manylion am y Rhaglen HMS ar safwe CYNNAL erbyn y 1af o Fehefin.
GWYBODAETH YMLAEN LLAW	· Bydd y manylion am bob cwrs a roddir ar safwe CYNNAL yn cynnwys – teitl, dyddiad a lleoliad pob cwrs – nodau, amcanion a deilliannau – rhaglen y dydd yn nodi amserlen fras – unrhyw anghenion ar gyfer y cwrs – ffi (os yn berthnasol)
COFRESTRU	· Bydd disgwyl i ysgolion – gofrestru'n electronig ar safwe CYNNAL erbyn diwedd tymor yr haf – gofrestru unigolion ar gyfer dewis o 3 chwrs bob tro – nodi anghenion y sawl fydd yn mynychu'r cwrs o ran bwyd, anabledd, cyfieithu a map lleoliad · Anfonir cadarnhad o'r cofrestriad terfynol at yr ysgolion yn fuan yn nhymor yr hydref. · Bydd disgwyl i ysgolion hysbysu CYNNAL o unrhyw newidiadau, e.e. newid enw aelod cwrs, aelod cwrs ddim yn mynychu. · Bydd disgwyl i bawb sydd yn mynychu cwrs lofnodi cofrestr ar y diwrnod.
NEWID DYDDIAD, GOHIRIO A DILEU CYRSIAU	· Dilëir cyrsiau am y rhesymau a ganlyn yn unig: – diffyg ymateb gan ysgolion - pan fydd llai na 10 wedi dewis cwrs penodol yna bydd y cwrs hwnnw yn cael ei ddileu o'r arlwy cyrsiau cyn cadarnhau'r ddarpariaeth ym mis Medi. – anallu darparwyr y cwrs i fod yn bresennol oherwydd, e.e. salwch, profedigaeth ac ati. Lle mae'n bosibl hysbysir ysgolion o flaen llaw ond fe fydd rhai achosion pan na fydd hynny yn bosib. · Pan fydd angen newid dyddiad neu ohirio cyrsiau hysbysir ysgolion trwy e-bost i'r Pennaeth.
LLEOLIAD	· Lleolir cyrsiau mewn mannau sydd mor gyfleus â phosib ar gyfer ysgolion ac yn ôl gofynion y cwrs.

CYFLWYNO'R SESIYNAU HMS	· Pan ddarperir cyrsiau gan ymgynghorwyr CYNNAL cyflwynir y cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd gofyn. Pan na fydd yn bosib darparu cyfieithydd cyflwynir y cwrs yn ddwyieithog. Yn yr achosion lle mae darparwyr allanol yn ddi-Gymraeg, Saesneg fydd cyfrwng y cwrs a darperir cyfieithydd os bydd angen. · Darperir taflenni i'w dosbarthu ar y cwrs yn y Gymraeg oni bai fod cais am gyfieithu wedi ei wneud wrth gofrestru ac yna paratoir taflenni dwyieithog. · Neilltuir amser tua diwedd y cwrs i roi cyfle i'r aelodau adnabod pa ddilyniant sydd angen i'r cwrs. Dylai'r darparwr gynnig arweiniad yn hyn o beth.
ARFARNU CYRSIAU	· Rhoddir cyfle i bob unigolyn sydd wedi mynychu cwrs i gwblhau ffurflen arfarnu. Defnyddir taflenni arfarnu triphlyg er mwyn i'r darparwr, y Tiwtor Proffesiynol a'r aelod ei hun dderbyn copi. · Crynhoir arfarniadau pob cwrs a'u gosod ar safwe CYNNAL o fewn y 6 wythnos yn dilyn y cwrs. · Darperir adroddiad blynyddol HMS i'r ysgolion.
TALU	· Cyllidir y mwyafrif o gyrsiau o'r Gronfa Ysgolion Gwell (HMS Clwstwr a chredydau HADA). Cytunir i ddileu cofrestriad hyd at wythnos o flaen y cwrs. · Yn yr achosion lle mae ysgolion yn anfon cynrychiolydd i gwrs na chyllidir o'r Gronfa Ysgolion Gwell yna fe anfonir anfoneb yn uniongyrchol at yr ysgol i hawlio'r ffi.
AR ÔL Y CWRS	· Anfonir unrhyw ddogfennau ychwanegol perthnasol i'r cwrs yn uniongyrchol i'r aelodau o fewn mis i ddyddiad y cwrs.